

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 12 Ebrill 2022

Aelod Arweiniol / Swyddog **Julian Thompson-Hill** – Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

David Lorey, Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Dai

Awdur yr Adroddiad Mark Cassidy

Teitl **Fframwaith Cynnal a Chadw Rhagweithiol (Mân waith) – Ysgolion ac Eiddo nad ydynt yn Ysgolion**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canlyniad ymarfer caffael i sefydlu Fframwaith Cynnal a Chadw Rhagweithiol ar gyfer gwaith ar stoc adeiladau corfforaethol y Cyngor (Ysgolion ac Eiddo nad ydynt yn ysgolion).
- 1.2. Bydd y Fframwaith yn cael ei ddefnyddio i benodi contractwyr i gyflawni gwaith cynnal a chadw bach/ rhagweithiol sydd yn costio dan £10,000.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae angen penderfyniad i benodi'r contractwyr yn y Fframwaith Cynnal A Chadw rhagweithiol yn dilyn gweithdrefn gwerthuso a phroses caffael OJEU.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 4) fel rhan o'i ystyriaethau.
- 3.2. Argymhellir y dylid penodi'r contractwyr i gyfrannau'r Fframwaith fel y nodir yn Atodiad 1.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mewn ymateb i'r fframwaith cynnal a chadw rhagweithiol ar gyfer adeiladau corfforaethol cyfredol yn dod i ben, ynghyd â dyheadau i wella effeithlonrwydd caffael a chydymffurfiaeth yn gyffredinol, cyflawnwyd proses caffael cwyn OJEU i sefydlu fframwaith newydd i waith cynnal a chadw rhagweithiol a mân waith i holl adeiladau corfforaethol y Cyngor.

4.2. Cafodd y tendr ei rannu i 6 cyfran yn ôl ardal a math o waith fel a ganlyn -

Cyfran 1 – Gwaith adeilad cyffredinol cysylltiedig a rhagweithiol i Ogledd Sir Ddinbych.

Cyfran 2 – Gwaith adeilad cyffredinol cysylltiedig a rhagweithiol i Dde Sir Ddinbych.

Cyfran 3 – Gwaith cynnal a chadw gwasanaethau trydanol bach cyffredinol a rhagweithiol i Ogledd Sir Ddinbych

Cyfran 4 – Gwaith cynnal a chadw gwasanaethau trydanol bach cyffredinol a rhagweithiol i Dde Sir Ddinbych

Cyfran 5 – Gwaith cynnal a chadw gwasanaethau mecanyddol bach cyffredinol a rhagweithiol i Ogledd Sir Ddinbych

Cyfran 6 – Gwaith cynnal a chadw gwasanaethau mecanyddol bach cyffredinol a rhagweithiol i Dde Sir Ddinbych

4.3. Mae eglurhad mwy manwl o'r Cyfrannau a gweithrediad fframwaith wedi'i gynnwys yn Atodiad 2

4.4. Darpariaeth ar gyfer monitro perfformiad mewn lle fel yr amlinellir yn Atodiad 3.

4.5. Mae'r dull yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau diwygiedig y Cyngor a chanllawiau a deddfwriaeth caffael cenedlaethol. Bydd y fframwaith arfaethedig yn dangos:

Bod y Cyngor wedi cyflawni gwiriadau gwerth am arian, iechyd a diogelwch a sicrhau ansawdd ar gontractwyr a gyflogir i gyflawni mân waith a gwaith rhagweithiol.

Ffyrdd mwy effeithlon o weithio o ran caffael gwaith cynnal a chadw bach, lleihau prosesau dewis contractwyr a chael gwared â'r angen i gael dyfynbrisiau unigol ar gyfer holl waith rhagweithiol;

Mae'r Cyngor yn moderneiddio'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau;

Rheoli perfformiad ffurfiol parhaus o gontractwyr allanol;

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y fframwaith arfaethedig yn:

Helpu i ddatblygu'r economi leol drwy gefnogi Busnesau Bach a Chanolig Lleol i'w galluogi i dyfu, datblygu eu potensial a denu mewnfuddsoddiad drwy ddangos rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Moderneiddio caffael mân waith i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwell wasanaethau i'n cwsmeriaid drwy broses caffael mwy syml – gan arwain at adeiladau gwell, gan gynnwys ysgolion.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y Fframwaith yn cymryd lle'r fframwaith cymeradwy cyfredol a reolir gan yr Adran Eiddo. Bydd cost rheoli'r fframwaith yn cael ei gynnwys gan yr adnodd mewdol cyfredol.

6.2. Bydd y fframwaith yn galluogi ymateb cyflymach i fân waith a gwaith rhagweithiol cynnal a chadw.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Crynodeb o'r effaith

Nodau Lles

Sir Ddinbych ffyniannus - Cadarnhaol

Sir Ddinbych wydn – Cadarnhaol

Sir Ddinbych iachach - Cadarnhaol

Sir Ddinbych fwy cyfartal – Niwtral

Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol - Cadarnhaol

Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – Niwtral

Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang – Cadarnhaol

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyflawnwyd ymarfer ymgynghori gyda busnesau bach a chanolig lleol a rhanbarthol cyn cyhoeddi'r tendr.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r fframwaith arfaethedig yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth caffael a CPR tra eu bod yn symleiddio penodi contractwyr cyn eu cymeradwyo drwy broses cystadleuol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Contractwyr ar y fframwaith yn perfformio'n wael gyda chwmpas cyfyngedig o ddewis contractwyr eraill. Mae hyn yn cael ei liniaru gan y ffaith bod ansawdd wedi'i ystyried yn ystod y prosesau cyn-gymhwyso a thendro. Mae Mesuryddion Perfformiad mewn lle gyda chosbau am beidio â chydymffurfio. Cyn y penodiad, cynhelir cyfarfod gyda phob contractwr i drafod y targedau perfformiad ac ansawdd.

10.2. Mae Mesuryddion Perfformiad mewn lle a fydd yn ein galluogi i coladu lefelau o wariant a nifer o ddyraniadau gwaith i gontractwyr. Bydd y dadansoddiad hwn yn galluogi'r Cyngor i ddangos ei fod yn cyflawni gwerth am arian o ran y prosesau caffael.

10.3. Bydd cydymffurfiaeth ansawdd ac iechyd a diogelwch parhaus yn cael ei fonitro drwy'r system Proactis.

10.4. Bydd diweddariadau perfformiad chwarterol yn cael ei roi i'r Timau Rheoli Cyllid ac Eiddo.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mae'r pŵer i wneud penderfyniad wedi'i gynnwys yn Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rheoliad 33 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.